GWEITHDREFN AR GYFER CEISIADAU AM ADOLYGIAD

Egwyddorion cyffredinol

1. Mae gennych hawl i ofyn am adolygiad yn erbyn unrhyw gosb sydd wedi'i gosod o dan y Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd a'r Gweithdrefnau cysylltiedig.

2. Rhaid cyflwyno'r cais am adolygiad ar y ffurflen briodol i Waith Achos Myfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod y canlyniad.

Seiliau ar gyfer adolygiad

3. Gellir gofyn am adolygiad yn unol â'r rhesymau canlynol:

   a) Mae'r dystiolaeth newydd honno neu amgylchiadau esgusodol hynny wedi dod yn hysbys ac nad oes modd i'r myfyriwr sy'n ymateb fod wedi gwneud hynny'n hysbys yn rhesymol adeg y cyfarfod/gwrandawiad/ymchwiliad gwreiddiol. *(DS Ni dderbynnir rhesymau personol, teulu neu ddiwylliannol sensitif fel rheswm da.)*

   b) Bod afreoleidd-dra o ran y gwaith o gynnal achos o natur mor arwyddocaol ag i achosi amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r un penderfyniad wedi'i wneud pe na baent wedi digwydd.

   c) Bod y canfyddiadau a'r argymhellion yn anghymesur, ac ystyried amgylchiadau'r achos.

4. Eich cyfrifoldeb chi yw darparu tystiolaeth i ddangos bod un neu fwy o'r seiliau a nodir yn 3 uchod, yn berthnasol.

Ystyried y cais am adolygiad

5. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn ystyried eich cais am adolygiad a gall ei wrthod heb wrandawiad yn yr amgylchiadau canlynol:

   a) Ni chafodd y cais am adolygiad ei gyflwyno o fewn yr amserlen benodol.

   b) Ni chyflwynwyd unrhyw sail adnabyddadwy ar gyfer adolygiad.

   c) Ystyriwyd bod y rhesymau dros adolygu yn flinderus neu'n wamal.

6. Os yw Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) o'r farn nad oes unrhyw sail ar gyfer adolygiad, byddwch yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan y Brifysgol, a fydd yn eich galluogi i fynd â'ch achos i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch, os byddwch yn parhau'n anfodlon â'r canlyniad.

7. Os yw Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) o'r farn bod sail i adolygiad, bydd eich achos yn cael ei gyfeirio at Banel Adolygu.

8. Bydd penderfyniad Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn cael ei gyfleu i chi o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais am adolygiad a'r holl dystiolaeth ategol.

9. Os ydych chi'n brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr.

Panel Adolygu

10. Bydd gwrandawiad y Panel Adolygu yn cael ei gynnull o fewn 20 diwrnod gwaith o atgyfeirio eich achos. Gellir ymestyn yr amserlen hon os byddwch chi'n cytuno neu, o dan amgylchiadau eithriadol, mewn cytundeb â'r Brifysgol.

11. Bydd y Panel Adolygu yn cynnwys y canlynol:

- Is-Ganghellor (neu enwebai);
- Aelod o'r uwch dîm rheoli.

Os bydd gwahaniaeth barn rhwng dau aelod panel, yr Is-Ganghellor (neu'r enwebai) fydd â'r bleidlais fwrw.

Bydd y gwrandawiad yn cael ei wasanaethu gan Ysgrifennydd, nad yw'n aelod ond a fydd yn bresennol drwy gydol yr achos. Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yr Ysgrifennydd.

Ni fydd aelodau'r Panel Adolygu wedi ymwneud â'ch achos o'r blaen nac wedi dod i gysylltiad â chi.

Os ydych chi'n brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd cynrychiolydd cyflogwyr hefyd yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol fel arsylwr.

12. Gall y Panel Adolygu benderfynu:

a) Y dylid cadarnhau canlyniad y Pwyllgor.

b) Na ddylid cadarnhau canlyniad y Pwyllgor a:

i. Bod y Pwyllgor wedi gwneud camgymeriadau gweithdrefnol a/neu gamgymeriadau barn ac y dylid llunio Pwyllgor newydd i glywed yr achos o'r newydd. Yn yr achos hwn, bydd y Panel Adolygu yn penderfynu a ddylid ailystyried yr achos cyfan, neu elfennau o'r achos yn unig,

ii. Roedd canlyniad y Pwyllgor yn anghymesur ac ystyried amgylchiadau'r achos a dylid dod i ganlyniad mwy cymesur.

13. Bydd penderfyniad y Panel yn derfynol a bydd yn cael ei gyfleu i chi drwy e-bost i'ch cyfrifon e-bost Prifysgol a phersonol o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod. Ar ben hynny, gellir anfon hysbysiad drwy'r llwybr post mwyaf priodol i'ch cyfeiriad a gofnodwyd ddiwethaf. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ddigonol ac yn cyflawni'n llwyr ddyletswydd y Brifysgol i roi gwybod i chi.

14. Os ydych chi'n brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr.

15. Os bydd yr adolygiad yn llwyddiannus, bydd y Brifysgol yn sicrhau cyn belled ag y bo modd nad ydych wedi cael eich rhoi dan anfantais oherwydd unrhyw gamau disgyblu neu waharddiad.

Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig
Rheoliadau Camymddwyn anacademaidd
Gweithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau Disgyblu
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad
Gweithdrefn ar gyfer Ystyried Cynrychiolaeth Gyfreithiol
Gweithdrefn Asesu Risg
Canllawiau ar gyfer Cymhwyso Sancsiynau
Rheoliadau a Gweithdrefnau Amgylchiadau Esgusodol
Rheoliadau a Gweithdrefnau Cymorth i Astudio